OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3173 (Cy.278)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007

Gwnaed - - - - *7 Tachwedd 2007*
Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *8 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - - *30 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion yr adran honno o ran rheoli a rheoleiddio'r broses o ryddhau'n fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a rheoli a rheoleiddio'u symudiadau trawsffiniol(**2**), o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu neu ei fwydo i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(**3**), o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**4**) a mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**5**).

Bu ymgynghori agored a thryloyw yn ystod gwaith paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**6**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Glwten Ŷd a Grawn Bragu) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2007, deuant i rym ar 30 Tachwedd 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2003/2901. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn a'r tri dynodiad arall y cyfeiriwyd atynt i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) O.S. 2005/1971.
(**4**) O.S. 2005/2766.
(**5**) O.S. 2003/1246.
(**6**) OJ RhifL31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf ar y dyddiad y gwnaed yr offeryn hwn gan Reoliad (EC) Rhif575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).